

Ein Bro



LUMEN NOBIS SIT SCIENTIA

Ysgol Bro Ddyfi

Miss Mared Elfyn 1990 - 2013

Pleser o'r mwyaf oedd cael cydweithio gyda Mared. Roedd ei gwên yn goleuo'r diwrnod tywyllaf; ei charedigrwydd yn cynhesu'r galon drymaf a'i phersonoliaeth yn ei gwneud yn ffrind o'r eiliad gyntaf. Roedd ei chyfeillgarwch yn rhywbeth i'w drysori, nid yn unig gennym ni'r staff ond gan bob disgybl, o Flwyddyn 7 i'r Chweched Dosbarth. Tasg anodd yw crynhoi mewn geiriau gyfraniad aruthrol Mared i fywyd yn Ysgol Bro Ddyfi.

Gadewch i mi gychwyn gyda'r ffaith ddiymwâd ei bod hi'n athrawes boblogaidd, nid yn unig gan y rhai hynny a fu mor ffodus i gael eu dysgu ganddi, ond hefyd gan y rhai na chawsant y cyfle i fod yn un o'i dosbarthiadau. Rywsut neu'i gilydd cyffyrddodd ei gwên â phawb. Chafwyd erioed yr un gair croes amdani; yr oedd hi bob amser yn barod ei chymwynas ac ymroddodd yn llwyr i'w gwaith yn adran y Gymraeg. Gwnaeth argraff o'r cychwyn cyntaf. Yn ystod ei chyfnod ymarfer dysgu gallwn weld ei bod hi'n gwbl gysurus yn yr ystafell ddosbarth a'i bod hi'n cymryd ei gwaith o ddifrif.

Rwyf yn cyfrif fy hun yn ffodus fy mod wedi ei gweld hi'n dysgu. Gallaf eich sicrhau, roedd Mared yn athrawes ddawnus a oedd yn llwyddo i ennyn dealltwriaeth a chydweithrediad y plant hynny oedd yn ei gofal. Roedd hi'n ysbrydoliaeth iddyn nhw. Roeddwn i'n ei hedmygu.

Eleni roedd Mared yn gyfrifol am ddysgu Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith ynghyd â Drama, Sgiliau, Addysg Grefyddol a Chymru Ewrop a'r Byd. Fel y gwelwch o'r rhestr: athrawes hyblyg ac amryddawn. A dweud y gwir, rydw i'n sicr y byddai wedi gallu troi ei llaw at unrhyw bwnc, oherwydd mi fyddwn i'n tybio mai ei hathroniaeth hi oedd rhywbeth tebyg i hyn: mae gen i gyfrifoldeb i ddarparu gwersi o ansawdd, felly dw i'n mynd i wneud bob dim o

fewn fy ngallu i sicrhau fod hynny yn digwydd. Rydw i'n amau ei bod hi wedi treulio oriau lu yn creu adnoddau lliwgar a deniadol oedd yn hyrwyddo'i dysgu.

Nid Cymraeg Ail Iaith yw'r pwnc hawsaf yn y byd i'w ddysgu ond cofleidiodd Mared y dasg a darparodd wersi o ansawdd arbennig o uchel. Does dim syndod felly bod ei chanlyniadau mor dda, gyda phawb yn y dosbarth yn pasio, a 95% yn ennill gradd A* - C. O bennaf bwys, roedd y plant yn mwynhau ei gwersi ac yn awyddus i ddysgu; doedd y Gymraeg felly ddim yn fwrn arnyn nhw. Doedd dim yn ormod ganddi. Roedd pob tasg yn cael ei chwblhau i'r safon orau: roedd hi bron â bod yn marcio gwaith y plant cyn iddynt ei orffen!

Cofiaf amdani'n cystadlu yn fersiwn yr ysgol o Strictly Come Dancing i godi arian at Blant Mewn Angen a hithau ond yn fyfyrwraig ar y pryd ond yn mynd ymlaen i ennill y gystadleuaeth, wrth gwrs. Roedd hi'n wych: yr hyn sy'n aros yn y cof yw ei hegni a'i gallu i wau symudiadau hen a newydd i mewn i ddawns oedd yn wirioneddol wfreiddiol. Ac mae'n siŵr gen i mai dyna oedd ei chyfrinach: ei gallu i dderbyn arweiniad gan staff hŷn ac yna i ychwanegu dogn go helaeth o greadigrwydd ac afiaith i'r cyngor hwnnw. Y canlyniad oedd gwersi difyr a chyfraniad amhrisiadwy i fywyd yn Ysgol Bro Ddyfi. Mae hi'n gadael bwllch enfawr ar ei hôl.

Maent yn dweud bod athro da yn teimlo angerdd at ei bwnc; yn ddi-ddanwr hyderus; yn wrandawr gofalgwr; yn llawn hiwmor ac asbri ond yn fwy na dim yn ysbrydoliaeth i'r genhedlaeth nesaf. Roedd Mared yn rhain i gyd.

Bydd colled enfawr yn ysgol Bro Ddyfi ar ei hôl. Rydym wedi colli chwip o athrawes yn Miss Elfyn. Rydym wedi colli chwip o ffrind yn Mared. Braint oedd cael cydweithio â hi. Mae ein diolch ni yn fawr i ti Mared.



Ysgol Bro Ddyfi

Working with Mared has been a pleasure: her smile lit up the darkest of days; her kindness lifted the heaviest heart and her personality made her your friend from the very first meeting. Her friendship was something to be treasured, not only by us, the staff, but also by each pupil, from Year 7 to the Sixth Form. It is a very difficult task to summarize in a few words the enormous contribution that Mared has made to life at Ysgol Bro Ddyfi.

Let me start with the undeniable fact that she was a very popular teacher, not only in the eyes of those who were lucky enough to be taught by her, but also by those who did not get the opportunity to be in one of her classes. Somehow her smile touched everyone. There was never a cross word about her; she was always very willing to help others and devoted herself completely to her work in the Welsh department. She made an impression from the very start. During her teaching practice it was obvious she was completely at home in the classroom and that she was dedicated to her work.

I count myself very fortunate to have seen her teach. I can assure you that she was a very talented teacher who kindled enthusiasm, understanding and co-operation in children. I admired her. This year Mared was responsible for teaching Welsh and Welsh Second Language together with Drama, Skills, Religious Studies and Wales, Europe and the World. As you can see from the list, she was a very versatile and talented teacher. I have no doubt Mared could have taught any subject. I guess her philosophy would have been something similar to this: I have a responsibility to prepare high quality lessons; I therefore intend to do everything within my power to ensure this happens. I suspect that she spent hours creating colourful and interesting

resources to support her teaching.

Welsh Second Language is not the easiest subject to teach; Mared embraced the task and produced lessons of an excellent quality. It comes as no surprise that 95% of her students last year passed with A- C. The children in her care enjoyed her lessons and were eager to learn; learning Welsh with Miss Elfyn was not a chore. Nothing was too much to ask and each task was completed to the best standard: she marked the work almost before the pupils had finished!*

I remember her competing in the school's version of Strictly Come Dancing to raise money for Children in Need; she was a student at the time, but went on to win the competition. She was amazing and displayed an innate ability to weave old and new moves into a dance which made it truly thrilling. I'm sure this was part of her secret for success: her ability to accept advice from senior staff and then to add a huge dose of creativity to the advice received. The result was interesting lessons and a priceless contribution to life at Ysgol Bro Ddyfi. She leaves a massive void.

They say that every good teacher feels passionate towards their subject; is a confident entertainer; a caring listener; is full of humour and more than anything is an inspiration to the next generation. Mared was all of these.

We miss her dearly at Ysgol Bro Ddyfi; we have lost a truly amazing teacher and a very loyal friend.



Gair gan y Pennaeth

Annwyl Riant /Ofalwr

Dyma ysgrifennu neges ar gyfer **Ein Bro** ar adeg eithriadol o anodd i ni fel ysgol. Mae marwolaeth sydyn a chynamserol Miss Mared Elfyn wedi bod yn ergyd lem iawn i bob un ohonom yn yr ysgol. Ar ran yr ysgol, hoffwn gydymdeimlo'n ddiffuant iawn gyda'i theulu a'i ffrindiau yn eu profedigaeth.

Ar drywydd hollol wahanol, carwn rannu gwybodaeth am gyflawniad y plant. Ers yr rhifyn diwethaf o **Ein Bro**, rydym wedi derbyn a dathlu canlyniadau TGAU a Safon Uwch da iawn; wedi ein gosod mewn band newydd ac wedi cael ein rhoi mewn safle ranc gan y **Real Schools Guide**.

Canlyniadau TGAU

Eleni eto, dathlwyd canlyniadau TGAU arbennig iawn. Llwyddodd 97% o ddisgyblion Blwyddyn 11 y llynedd i ennill o leiaf 5 A*- C neu raddau cyfatebol: prin iawn oedd yr ysgolion yng Nghymru a gyflawnodd yn well na hyn. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ganmol ymdrechion y disgyblion a'r staff, a diolch i rieni am eu cefnogaeth. Ymysg y perfformwyr gorau roedd:

- Lowri Faber - 5A*, 3A, 2B ac 1C
- Lliwen Jones – 4A*, 5A, 2B ac 1C
- Briony Rigby – 4A*, 6A a 2B
- Lowri Jones – 3A*, 8A ac 1B
- Ffion Tomlinson – 3A*, 6A a 3B
- Jo Thomas – 3A*, 3A a 6B
- Llew Bleddyn – 2A*, 8A a 2B
- Robert Buchan Terrey - 2A*, 5A, 2B a 2C
- Cai Lewis – 1A*, 6A, 2B a 2C

Braf oedd gweld mwyafrif helaeth y cohort hwn yn dychwelyd i'r Chweched Dosbarth eleni, a braf hefyd oedd gallu croesawu nifer helaeth o ddisgyblion newydd o ardaloedd eraill tu hwnt i'n dalgylch.

Canlyniadau Safon Uwch

Roedd canlyniadau Safon Uwch y llynedd hefyd yn dda iawn. Roedd y gyfradd basio A*-E yn 100% - yn cynnwys Cymhwyster Bagloriaeth Cymru a chyrсияu galwedigaethol. Ymfalchïwn yn y ffaith bod 50% o'r graddau a ddyfarnwyd yn raddau A*- B, a 72% yn A*- C. Llwyddodd pob disgybl i ennill lle mewn prifysgol o'u dewis hwy er mwyn mynd yn eu blaen i astudio amrywiaeth o gysiau traddodiadol neu alwedigaethol mewn prifysgolion uchel iawn eu parch. Unwaith eto, mae hyn yn adlewyrchiad o ymdrechion ac ymroddiad y disgyblion a'r staff.

Ein Canlyniadau ni Mewn Cymhariaeth ag Ysgolion Eraill yng Nghymru

Rydym eleni wedi ein gosod ym Mand 3. Mae hyn yn gadarnhaol iawn. Da yw gallu nodi ein bod yn y chwarter

uchaf wrth ystyried 8 canlyniad TGAU gorau pob disgybl, a hefyd eu presenoldeb.

Mae Ysgol Bro Ddyfi hefyd yn ymfalchïo yn y ffaith iddi gael ei henwi yn 6ed ysgol uchaf ei pherfformiad yng Nghymru ar gyfer 2013 yn y **Real School's Guide** yn y Western Mail. Mewn ymchwil a gwblhawyd gan Brifysgol Fetropolitan Manceinion sydd yn seiliedig ar gyrhaeddiad plant, safonau addysgu, ymddygiad a rheolaeth gyllidol, llwyddodd yr ysgol i ennill 5 seren ymhob un dangosydd. Mae'n werth nodi mai Ysgol Bro Ddyfi oedd yr unig ysgol yng Nghymru i lwyddo i wneud hyn.

Gwelir isod ganlyniadau ysgolion cyfagos eraill

Ysgolion	Cyrrhaeddiad 5 = ardderchog 1 = gwael	Addysgu 5 = ardderchog 1 = gwael	Ymddygiad 5 = ardderchog 1 = gwael	Cyllideb 5 = ardderchog 1 = gwael	Sgôr	Ranc (219 o ysgolion uwchradd yng Nghymru)
Ysgol Bro Ddyfi	5	5	5	5	74.6	6
Ysgol Penweiddig	5	4	5	2	60.6	50
Ysgol Uwchradd Tywyn	2	4	2	5	52.2	99
Ysgol Penglais	1	1	5	2	38.8	176

Y gefnogaeth a ddarperir gan y staff i'r disgyblion ynghyd ag ymdrechion cydwybodol y plant eu hunain sydd wedi arwain at sicrhau'r lefelau hyn o lwyddiant. Rydym hefyd yn falch iawn o'r berthynas glos sydd rhwng yr ysgol a'r rhieni ac rydym yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a roddir i'r disgyblion gyda'u gwaith ysgol.

Wrth edrych ymlaen i'r dyfodol, mae cabinet Cyngor Sir Powys wedi caniatáu uno Ysgol Gynradd Machynlleth ac Ysgol Bro Ddyfi ym Medi 2014. Rydym yn wynebu amser cyffrous iawn gyda llawer o waith caled i'w wneud er mwyn cynllunio a pharatoi ar gyfer yr uno. Bydd yr ysgol newydd yn cynnig cyfleoedd newydd a bydd yn braf gweld y datblygiadau cyffrous ac arloesol ar waith.

Yn olaf, hoffwn ddyuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chwifoll.

Dafydd M B Jones



A Word From the Headteacher

Dear Parent /Carer

This letter for Ein Bro is written at a very difficult time for our school. The sudden death of Miss Mared Elfyn has been a massive blow to us all. On behalf of the school, I would like to offer my condolences to her family and friends. On a different note, I would like to take this opportunity to share information with you about pupil achievement. Since the last edition of Ein Bro we have received and celebrated very good results at GCSE and A Level and we have been banded and ranked within the Real Schools Guide.

GCSE Results

The GCSE results again this year were very pleasing with 97% of pupils in Year 11 achieving 5 A*-C or equivalent. Few schools in Wales performed better than this. Both the students and staff should be congratulated for this achievement and I would like to thank the parents for their support. Some of the best performers are listed below:

- Lowri Faber - 5A*, 3A, 2B ac 1C
- Lliwen Jones – 4A*, 5A, 2B ac 1C
- Briony Rigby – 4A*, 6A a 2B
- Lowri Jones – 3A*, 8A ac 1B
- Ffion Tomlinson – 3A*, 6A a 3B
- Jo Thomas – 3A*, 3A a 6B
- Lleu Bleddyn – 2A*, 8A a 2B
- Robert Buchan Terrey - 2A*, 5A, 2B a 2C
- Cai Lewis – 1A*, 6A, 2B a 2C

It was also very pleasing to see a large majority of the cohort returning to the Sixth Form, and it was nice to welcome many new students from outside the catchment area.

A Level Results

The A Level results were also very positive last year. Every student achieved 100% A*-E, which also included the Welsh Bac and vocational qualifications. I am pleased to report that 50% of the grades were A*- B and that 72% of the grades were A*-C. Every student secured a place at their chosen University and went on to study a variety of traditional subjects and vocational subjects at well respected universities. Again this is a reflection of the hard work produced by the students and staff.

Our Results Compared to Other Schools in Wales

This year we are in Band 3. This is very encouraging. We have been placed in the highest quartile of the Capped Points Score Indicator (8 best results) for each pupil and we are also placed in the First Quartile for our attendance record.

We are also very pleased to be ranked 6th through Wales in the Real School's Guide in the Western Mail. The guide was compiled by Manchester Metropolitan University and is

based on pupil attainment, quality of teaching, behaviour and financial management. The school achieved five stars for each of the categories - the only school in Wales to achieve this.

Below are the results of other nearby schools

Schools	Attainment 5 = excellent 1 = poor	Teaching 5 = excellent 1 = poor	Behaviour 5 = excellent 1 = poor	Finance 5 = excellent 1 = poor	Score	Rank (219 secondary schools in Wales)
Ysgol Bro Ddyfi	5	5	5	5	74.6	6
Ysgol Penwe ddig	5	4	5	2	60.6	50
Ysgol Uwchr add Tywyn	2	4	2	5	52.2	99
Ysgol Pengla is	1	1	5	2	38.8	176

This excellent success can be linked clearly to our very hard working staff. The pupils also deserve to be congratulated for their efforts which has allowed them to succeed to the level we see here. Also we are proud of the close relationship shared between the school and parents and we appreciate the support given to pupils with their school work.

As we look forward to the future, the cabinet of Powys County Council has agreed to merge Ysgol Gynradd Machynlleth and Ysgol Bro Ddyfi in September 2014. We are facing an exciting time with a lot of hard work to be done planning and preparing for the merger. The new school will offer new opportunities and it will be a pleasure to see the developments in operation.

Finally, I would like to wish all of you a Merry Christmas and a Happy New Year.

Dafydd M B Jones



Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Er mwyn i bobl ifanc gyflawni eu potensial, mae'n hanfodol bod ganddynt sgiliau llythrennedd a rhifedd safonol. Yma yn Ysgol Bro Ddyfi, rydym yn rhoi cryn sylw i'r sgiliau hyn ac mae'r athrawon wedi bod yn gweithio'n galed yn ddiweddar i gynllunio a gweld ble ar draws y cwricwlwm bydd agweddau penodol yn cael eu datblygu. Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd yn greiddiol os am godi safonau, ac mae pob pwnc ar draws yr ysgol yn mynd i fod yn targedu datblygu'r sgiliau hyn. Mae'r fframwaith wedi ei chyhoeddi ers Pasg 2013, ac erbyn hyn mae tipyn o'r cynllunio wedi ei gwblhau yn Ysgol Bro Ddyfi. Ein bwriad ni yw i'r fframwaith fod yn weithredol iawn erbyn Medi 2014, er efallai bydd rhaid gwneud rhai addasiadau gyda chyflwyno Cwricwlwm 2014; mae'r ymgynghoriad ar y cwricwlwm hwn yn digwydd ar hyn o bryd.

Dyma safle gwe lle y ceir manylion pellach am y fframwaith:

[http://
learn-
ing.wales.gov.uk/
resources/nlnf/?
skip=1&lang=cy](http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy)



The Literacy and Numeracy Framework

If young people are to fulfil their potential, it's essential that they have good literacy and numeracy skills. Here at Ysgol Bro Ddyfi, we do focus on developing the literacy and numeracy skills of learners. Recently, the teachers have been working very hard to plan where, across the curriculum, specific aspects may be developed as set out in the framework. Literacy and numeracy skills are central to improving standards, and every subject across the school will be working to develop these skills. The framework was published in January 2013, and by now, much of the planning is in place at Ysgol Bro Ddyfi. Our aim is to have the framework up and running by September 2014, although some adaptations may have to be made with the introduction of Curriculum 2014 which is currently under consultation.

Further information about the framework is available here:

[http://
learning.wales.gov.uk/
resources/nlnf/?
skip=1&lang=en](http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=en)



Taith Gêm Rygbi Cymru V Tonga

Ar y 22ain o Dachwedd fe aeth criw o ddisgyblion ac athrawon yr ysgol ar drip i lawr i Gaerdydd i wylio'r gêm rygbi Cymru v Tonga gyda'r Urdd. Roedd pawb wedi cyffroi ar y ffordd lawr i'r brif ddinas ac yn edrych ymlaen i wylio'r gêm yn y stadiwm, rhai am y tro cyntaf.

Roedd y chwaraewr lleol—Rhodri Jones o Bennial yn dechrau'r gêm yn y safle prop. Roedd yn brofiad braf iawn gwylio'r hogyn lleol. Enillodd Cymru o 17-7, roedd hi'n gêm ddiflas, yn wahanol iawn i'r gêm yn erbyn Awstralia y penwythnos wedyn! Roedd pawb yn dawel iawn ar y daith adref gan bod pawb wedi blino ar ôl yr holl weiddi a neidio yn y stadiwm!

Hoffwn ddiolch i Urdd Gobaith Cymru a Miss Catrin Jones am drefnu'r daith!

Gan Gwawr Jones

On the 22nd of November 2013, a gang of us went to the Millennium Stadium, Cardiff, to watch the Wales vs. Tonga Autumn international game. Wales won the game 17-7.

We were all very excited to go and support Rhodri Jones and to cheer him and the rest of the boys on. Even though the game wasn't a very exciting one, the atmosphere was still good and we all had a good time! We had an amazing view from our seats.

We would also like to thank Urdd Gobaith Cymru and Miss Catrin Jones for organizing the trip!

By Tirion Evans





Frankenstein Review

What can I say about Nick Dear and **Danny Boyle's theatrical adaptation of Mary Shelley's Frankenstein** other than how beautiful it was; how emotional it was; how totally brilliant it was. For anyone who was expecting another Hollywood misinterpretation, they were very much mistaken. It was art at its best. The only regret I have is that I missed seeing it live.

Much like in Mary Shelley's novel, the main story begins with the birth of the Monster, played by Jonny Lee Miller with Benedict Cumberbatch as the egotistical Victor Frankenstein.. We watch as the Monster finds his feet before being cast out into the wilds by Victor who is disgusted by his physical appearance. It is here **that Dear and Boyle's interpretation differs to that of the original.** The focus is on the development of the monster, which to me was a wonderful move. It allows the audience to get to know him and understand him. At one point, I was wondering when exactly Frankenstein himself would get some stage time!

We follow the Monster's education, we watch as he learns to speak, to read and write, and what a beautifully emotional journey it is thanks to **Miller's stunning performance.**

Miller makes us feel sympathy by allowing us to see the world through **from the monster's perspective.**

Admittedly, having heard that Cumberbatch was to play a starring role in the play, I was already excited. I could not wait to see his performance and, without being biased, he certainly did not fail to disappoint. Because of his performance I truly believed Frankenstein to be insane, and felt real anger towards him.

Overall, this performance was breath-taking. I do not believe that **there is one star in Danny Boyle's Frankenstein** there are two. The production leaves the audience to answer the question: who is the real monster?

I intend to see it when it shows again on Friday 29th November. A production which sees Miller and Cumberbatch switch roles. I am intrigued to see how each will play their new part. Should you have the chance, I recommend that you go and watch it. This production is one that Mary Shelley herself would be proud of.

Lowri Faber
Year 12 Literature student.



Gwobrwyo!!!

Llongyfarchiadau i bawb a gyrrhaeddodd 75+ o bwyntiau clod! 150 fydd y gamp nesaf!

Congratulations to everyone who reached 75+ merits! 150 will be the next hurdle!



Ysgol Bro Ddyfi



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda

Merry Christmas and a Happy New Year



Plant mewn angen! Children in need!



Ar ddiwrnod Plant Mewn Angen roedd eisteddfod yn ystod amser cinio a oedd yn lwyddiant ysgubol! Yn cystadlu oedd- Josh Tisdale, Malachi Taylor, Keri Mills, Ben Wilde a Megan Parry.

Roedd nifer o berfformiadau yn amrwyio o ddawnsio, canu a chwarae'r piano. Gwerthon ni gacennau yn ystod y perfformiad hefyd.

Trefnwyd yr Eisteddfod gan Alex Zjalic, Bethany Bryne, Molly Petrie a Luke Herbert at eu cymhwyster Bagoloriaeth Cymru ac er mwyn hybu'r iaith Gymraeg a diwylliant er mwyn cael plant i ddefnyddio fwy o'u iaith.

Gan Molly Petrie

On children in need day, there was an eisteddfod held during dinner break, which was a success! We had Josh Tisdale, Malachi Taylor, Keri Mills, Ben Wilde and Megan Parry compete. Ranging from dancing, singing and playing the piano. We also sold cakes to the pupils who attended.

This Eisteddfod was organised by Alex Zjalic, Bethany Bryne, Molly Petrie and Luke Herbert for their Welsh Bac. They chose to do a mini eisteddfod to help promote the Welsh language and culture and to encourage children to speak more Welsh.

By Molly Petrie

Roedd hi'n ddiwrnod llwyddianus eto y flwyddyn hon gyda nifer fawr o'r ysgol yn defnyddio'r cyfle i ddod i'r ysgol gyda'u gwisg ffansi. Doedd rhai ddim mor ddewr ond fod dbynnag, daethant yn eu gwisgoedd eu hunain a cyfrannu at yr achos!

Roedd hi'n ddiwrnod reit ddoniol ac unwaith eto mae'n dangos pa mor barod ydi plant Ysgol Bro Ddyfi i gyfrannu at achos da. Ar ran Plant Mewn Angen diolch yn fawr Plant Ysgol Bro Ddyfi a gasglodd £247.20 ar gyfer elusen hynod o bwysig.

It was again a very successful day with the whole school taking part to raise money for such an important cause by coming into school in fancy dress. The majority of the school had the chance to wear their own and they paid for that privilege.

It was a very entertaining day and once again it shows how eager our pupils are to raise money for a such a good cause, which is close to our hearts. On behalf of children in need a big congratulations to our pupil for raising £247.20 for such a good cause.





Home Access Plus+

Access your school from Home

Mae modd i chi nawr weld eich ffeiliau Ysgol pan fyddwch chi gartref. Ysgol Bro Ddyfi yw'r unig ysgol yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru sy'n defnyddio'r rhaglen yma. Mae ar gael i bob disgybl yn yr ysgol.

Sut i ddefnyddio Home Access Plus+

It is now possible for you to see your school computer files at home. Ysgol Bro Ddyfi is the only school in Mid and North Wales that offers this service. It is possible for all pupils to access their files from home.

1. Yn gyntaf mae angen i chi fynd ar wefan Ysgol Bro Ddyfi. www.broddyfi.co.uk. Yna mae angen gwasgu botwm y linc sydd ar ochr dde'r sgrin.

First you need to go to the school website www.broddyfi.co.uk and click on the blue link on the right hand side. See the picture on the right.



2. Bydd blwch nawr yn ymddangos ar y sgrin fel yr un ar y chwith. Mi fydd angen i chi lenwi'r bylchau gan gyflwyno eich enw a chyfrinair eich cyfrif ysgol a gwasgu 'ok'.

Next a box will appear on the screen like the one on the left. You will need to fill in the form with your school account details and click ok.


3. Nawr mae'n bosib i chi glicio ar **Browse My School Computer** lle bydd hi'n bosib i chi weld eich ffolderi a'ch ffeiliau. Yno cewch ddewis rhwng eich ffolder chi, y ffolder **Curriculum Pool** neu ffolder y **shared drive**.



*Now you can click on **Browse My School Computer** where it will be possible for you to access your files. Then you will be able to choose from your folder, the curriculum pool or the shared drive to download files.*

3. I lawr lwytho dogfen o'ch dewis mae angen clicio arni ddwywaith ac mi fydd hi'n bosib i chi ei gweld a'i newid.

To download a document of your choice you can just click on it and it will be there for you to see and edit.



3. Os ydych am roi'r ddogfen yn ôl ar **Home Access Plus** er mwyn ei gweld ar system yr Ysgol, gwasgwch ar y botwm dde ar y lygoden a dewiswch **upload**.

*To upload your file back to the school system you must right click in the folder you wish to include, select the document and click **upload**.*

Dyddiadau Pwysig Important Dates



Beth / What?	Pryd/When?
21/12/13 – 06/01/14	Gwyliau Nadolig – Christmas Holiday
6/1/13	Diwrnod Di-ddisgybl / Non-pupil Day
08/1/14 – 27/1/13	Arholiadau Allanol Lefel A a TGAU / GCE and GCSE External Examinations
13/1/14	Noson Rieni BI 11 / Yr 11 Parents' Evening
03/2/14	Noson Hyrwyddo'r Chweched/ Sixth Form Promotion Evening
10/2/14	Noson Rieni BI 10 / Yr 10 Parents' Evening
24/2/14 – 28/2/14	Hanner Tymor / Half Term
10/3/14	Noson Rieni a Dewisiadau BI 9 / Yr 9 Parents' and Options Evening
31/3/14	Noson Rieni BI 7 / Yr 7 Parents' Evening
11/4/14	Diwrnod Di-ddisgybl / Non-pupil day
14/4/14	Gwyliau'r Pasg / Easter Holidays
12/5/14 – 24/6/14	Arholiadau Allanol Lefel A a TGAU / GCE and GCSE External Examinations
27 – 30/5/14	Hanner Tymor / Half Term
07/7/14	Wythnos Gweithgareddau / Activities Week Profiad Gwaith BI 12 / Yr 12 Work Experience Modiwl Iaith BI 10 / Yr 10 Language Module.



@BroDdyfi



5 Seren i Ysgol Bro Ddyfi!

Ysgol Bro Ddyfi yn cael ei henwi fel y 6ed ysgol uchaf ei pherfformiad yng Nghymru yn y **"Real Schools Guide"**

Ysgol Bro Ddyfi was named the sixth top **school in Wales in the "Real Schools Guide"**

Mae Ysgol Bro Ddyfi yn ymfalchio wrth gael ei henwi yn 6ed ysgol uchaf ei pherfformiad yng Nghymru ar gyfer 2013 yn y **"Real School's Guide"** yn y Western Mail. Mewn ymchwil a gwblhawyd gan Prifysgol Fetropolitan Manceinion yn seiliedig ar gyrhaeddiad, addysgu, ymddygiad a rheolaeth gyllidol, llwyddodd yr ysgol i ennill 5 seren o ran pob dangosydd; Ysgol Bro Ddyfi oedd yr unig ysgol yng Nghymru i lwyddo o ran hyn. Dywedodd Mr Dafydd Jones, y Pennaeth mewn gofal: **"Rydym yn ymhyfrydu yn y ffaith ein bod wedi llwyddo cystal o ran y dangosyddion hyn. Mae'r staff yn yr ysgol yn gweithio'n galed i gefnogi'r disgyblion i sicrhau'r lefel hwn o lwyddiant, ac mae'r disgyblion yn sicr yn haeddu cryn ganmoliaeth am yr ymdrechion cydwybodol sydd wedi eu caniatáu i lwyddo i'r lefel a welir yma. Fel ysgol, rydym hefyd yn falch iawn o'r berthynas glos sydd rhwng yr ysgol a'r rhieni ac rydym yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a roddir i'r disgyblion gyda'u gwaith ysgol."**

Ysgol Bro Ddyfi Machynlleth is very proud to be named the sixth best school in Wales for 2013 in the Western Mail's "Real Schools Guide". In research completed by Manchester Metropolitan University based on attainment, teaching, behaviour and financial management, the school achieved 5 stars across the board; Ysgol Bro Ddyfi was the only school to achieve this throughout Wales. Mr Dafydd Jones the Acting Headteacher said: "We are very proud to have achieved so well with regards to these indicators. The staff at the school work hard to support the pupils to ensure this level of success, and the pupils certainly deserve praise for their conscientious efforts in succeeding to the level noted here. As a school, we are also very proud of the close relationship we have with parents and appreciate the support given to pupils with their school work."



Noson Lawen

Ddydd Sadwrn yr ail o Dachwedd aeth Mrs James a chôr bechgyn i Lanfair Caereinion i serennu ar y rhaglen "Noson Lawen". Roedd y Côr sydd efo aelodau o fechgyn BL7 hyd at BL13 yn canu amrywiaeth o ganeuon gwerin yn ystod y sioe a oedd yn cael ei recordio a'i darlledu yn y dyfodol agos. Cafon nhw y pleiser o gwmni nifer o gantorion oedd yn canu amrywiaeth o wahanol gerddoriaeth gan gynnwys clasurol ac *indie*. Bu perfformiad hefyd gan gomediwyr a grwpiau cerddorol. Bu clod mawr yn arbennig i'r unawdwyr Trystan Waters a Dyfan Jones. Dywedodd Tomi Evans, a oedd hefyd yn aelod o'r côr mai y perfformiadau hynny oedd y "rhan emosiynol ac uchafbwynt y noson" a bod yr holl weithgaredd yn "wych". Dangosodd rai o'r bechgyn ddiddordeb i gymryd rhan eto yn y dyfodol ond yn anffodus, dim ond wyneb ar gyfer y radio oedd ganddynt!

Calum Davies

On Saturday the 2nd of November, Mrs James took her male voice choir to Llanfair Caereinion to appear on S4C's 'Noson Lawen'. The choir, which consisted of boys all the way from year 7 debutants to year 13 veterans, sang a folk during the recording of the light entertainment show, where they were joined by fellow singers ranging from classical to indie, comedians and musical groups. Particular praise went to soloists Trystan Waters and Dyfan Jones, whose performance was described by fellow singer Tomi Evans as, "the emotional pinnacle of the evening", and the night as a whole was "simply class". Some of the boys have expressed an interest in appearing on TV in the future.

By Calum Davies



During the summer a group of 7 members of the group completed their silver expedition, the group consists of members of Ysgol Bro Ddyfi as well as young people from other local schools and the local community.

This year we are expanding and there is already 2 bronze groups (14 years old and over) 3 silver groups (15 years old and over) and 1 gold group 16 years old and over.

The group meets every Thursday between 3.30 and 5 at Hyddgen open to any young people in the area under the age of 25.

All expedition training will take place during the school holidays. For more information please contact nlr@broddyfi-hs.powys.sch.uk



Apps Llythrenedd

Literacy Apps



Mae llawer iawn o ddisgyblion bellach gyda ffonau symudol a thabledi digidol. Mae'r disgyblion sydd gyda ipod Touch, ipad, ffonau HTC a ffonau eraill sy'n rhedeg systemau Android a thabledi gyda mynediad i 'Apps' sy'n gwneud datblygu sgiliau llythrenedd a rhifedd yn hwyl, ac yn brofiad llwyddiannus! Fel ysgol, rydym yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Apps hyn ar eu ffonau a'u tabledi ac i dreulio ychydig o amser yn gyson yn ystod y gwyliau (a thymor yr ysgol) yn ymarfer a datblygu eu sgiliau. Dyma gasgliad o Apps (rhaid rhad ac am ddim, a rhai sy'n rhaid talu amdanynt) yr awgrymir fel rhai da i'w defnyddio, er mae miloedd ar gael ar y wê, ac mae rhai newydd yn cael eu cyhoeddi'n gyson, felly mae'n werth edrych ar **itunes** a **Google Play** i weld beth sydd ar gael yn y meysydd hyn yn achlysurol.

Many pupils now have access to mobile phones and digital tablets. The pupils who have access to an ipod Touch, ipad, iphone, HTC phones and other Android phones and tablets also have access to Apps which make developing Literacy and Numeracy skills a fun and successful learning experience.

As a school, we are encouraging our pupils to put some of these Apps on their phones and tablets and to spend some time using them on a regular basis. The forthcoming holidays are an excellent opportunity to practice and develop these skills.

*Below are some free Apps and some which have to be paid for. Although these Apps are recommended by the school, there are also thousands of other Apps available on the internet, and new Apps are published all the time, therefore it is worth visiting **itunes** or **Google Play** from time to time to see what is available.*

Pearson Grammarprep - £2.49 yr un (10 app i gyd)

Dyma gasgliad o bosau sy'n targedu gwahanol agweddau o ramadeg. Mae ffocws ar agweddau amrywiol o ramadeg Saesneg yn cynnwys, lle i osod priflythyren, sut i atalnodi a sut i ddefnyddio geiriau'n gywir. Er gwaetha'r gôst, mae'r apps hyn yn safonol ac yn heriol, ac yn targedu disgyblion 11-18 mlwydd oed yn ogystal ac oedolion.

Pearson Readingprep - £1.99 yr un (7 app i gyd)

Mae cwmni Pearson hefyd wedi datblygu posau sy'n targedu sgiliau darllen Saesneg disgyblion. Maent yn targedu agweddau megis awgrymiadau, geirfa addas a trefn darnau darllen, ac eto yn heriol ac yn targedu disgyblion 11-18 mlwydd oed yn ogystal ac oedolion.

SAT vocab cards – am ddim

Dull o ddysgu geirfa sy'n gallu bod yn heriol ar ffurf cardiau fflach ac wrth eu clywed. Mae geirfa goeth yn sicr yn ddull o arddangos sgiliau llythrennedd safonol. Fel rhan o'r app, gellir mesur pa mor dda ydych chi'n deall geiriau ar ffurf cwis.

Book Creator for ipad - £2.99

App sy'n caniatáu unigolion i greu a dylunio llyfr. Mae'n gwneud y broses yn hwyl, ac yn arwain at ddatblygu sgiliau ysgrifennu.

Miss Spell's Class – am ddim

Mae'r 'ap' hwn yn targedu sgiliau sillafu disgyblion ac wedi dewis geiriau mae pobl yn ei chael fwyaf anodd i'w sillafu. Mae'n app poblogaidd iawn, ond dylid pwysleisio bod ambell air wedi eu sillafu yn y ffurf Americanaidd.

Android

Llythrennedd

1800 English Grammar Questions – am ddim

Y dasg yw i gael atebion gramadegol gywir i'r cwestiynau a ofynir sy'n cael eu gosod fel profion o 5 cwestiwn. Yr her yw i gael cyfres o 3 prawf cwbl gywir.

English Grammar tests – am ddim

Eto, cyfres o brofion, ond mae'r app yma hefyd yn cynnwys geiriadur ac adnoddau ieithyddol eraill.

Miss Spell's Class – am ddim

Mae hwn yn targedu sgiliau sillafu disgyblion ac wedi dewis geiriau mae pobl yn ei chael fwyaf anodd i'w sillafu. Mae'n app poblogaidd iawn, ond dylid pwysleisio bod ambell air wedi eu sillafu yn y ffurf Americanaidd.

Spelling Words Matching Game – am ddim

Gem arall yn canolbwyntio ar sillafu cywir.

English Reading Comprehension – am ddim

Dyma app sy'n targedu datblygu sgiliau darllen a deall. Mae hon yn sgil allweddol mae disgyblion angen gallu ei wneud mewn arholiad ac yn sgil allweddol sydd ei hangen ar gyfer dysgu gydol oes.





5x60



Badminton 5x60-Drenewydd 14/11/13

Ar y 14eg o Dachwedd aeth Ysgol Bro Ddyfi a 3 tîm i gystadleuaeth 5x60 Badminton Gogledd Powys. Un tîm o fechgyn o flwyddyn 7 ac 8, un tîm o ferched o flwyddyn 7 ac 8 a un tîm o fechgyn o flwyddyn 9 a 10.

Llwyddodd y tîm bechgyn blwyddyn 7 ac 8 i ennill 10 gêm allan o 10, yr un peth oedd hanes y merched o flwyddyn 7 ac 8, a llwyddodd y bechgyn o flwyddyn 9 a 10 i ennill 13 gêm allan o 15. Felly allan o gyfanswm o 35 o gemau ar y dydd, ennillodd Bro Ddyfi 33 ohonynt! Perfformiad anghygoel gan y chwaraewyr i gyd!

Ennillodd bob tîm o Bro Ddyfi eu categori yn rhwydd a symud ymlaen i'r rownd nesaf sef rownd derfynnol Gogledd Cymru ym mis Chwefror.

Syrffio

Y tymor yma bu disgyblion Bro Ddyfi yn syrffio yn Borth gyda'r cwmni 'Aber Adventures' bob Nos Wener. Mae'r gwersi yma wedi dod i ben am y tymor ond bydd cyfle i ddisgyblion syrffio eto ar ôl gwyliau'r Nadolig, felly os oes gennych ddi-ddordeb ewch i weld Steffan Price (Swyddog 5x60) am fwy o fanylion.

Badminton 5x60- Newtown 14/11/13

On the 14th November Ysgol Bro Ddyfi took 3 teams to the North Powys 5x60 Badminton competition. One team for boys years 7 and 8, one girls team from years 7 and 8 and one boys team for years 9 and 10.

The boys from years 7 and 8 won all 10 of their games; the girls from years 7 and 8 also managed to win all 10 of their matches whilst the boys from years 9 and 10 won 13 out of 15. So, in total, out of 35 matches played by the Bro Ddyfi teams, they managed to win 33. It was a fantastic performance by all the players.

All three teams won their categories and will now advance to the next round which is the North Wales Final in February.

Surfing

This term pupils from Bro Ddyfi had surfing lessons in Borth with the company 'Aber Adventures' every Friday evening. These lessons have finished for this term but will commence again after the Christmas holidays. If you're interested in attending these lessons, please go see Steffan Price (5x60 Officer) for more details.

Gwaith Maes / Field Work

Adran Daearyddiaeth

Trip Gwaith Maes Daearyddiaeth Blwyddyn 13

Y tymor hwn cafodd disgyblion blwyddyn 13 gyfle I fynd ar ddiwrnod o waith maes ar dwyni tywod Morfa Mawddach yn Harlech. Yn ystod y dydd cafodd y disgyblion y cyfle I wneud ymchwil ar y twyni tywod. Hoffwn ddiolch I Mrs E Davies ac Angharad Thomas am drefnu y diwrnod.

Hana Palterman a Marged Jones

Year 13 Geography field trip.

This term, Year 13 students had the opportunity to go on a field day trip to Morfa Mawddach Sand Dunes in Harlech. During the day, the students had the chance to conduct research on the dunes. We would like to thank Mrs E Davies and Angharad Thomas for organizing the day.



@BroDdyfi



British Bake Off - Bro Ddyfi

Nos Fawrth y 15fed o Hydref - Cystadleuaeth B17. Roedd 7 yn cystadlu - Harry Reeves, Sean Jones, Grace Butler, Alaw Jones, Myfanwy Fenwick, Glain Lewis ac Ewan Burnam. Bu cystadlu brwd wrth i'r cystadleuwyr bobi cacennau a bisgedi. Glain ddaeth i'r brig ac Alaw dynn yn ei sawdl.

Nos Fawrth 22ain o Hydref - Cystadleuaeth B18. Dim ond 4 oedd yn cystadlu - Maisie Sandells, Gilby Cambell, Emma Cooke, Shannon Lewis ond cafwyd safon uchel. Rhaid i'r disgyblion yma gael eu canmol am ysgafnder y sbwng a gwreiddioldeb y gwaith addurno. Gilby a Shannon aeth ymlaen i'r rownd nesaf.

Nos Fawrth 5ed o Dachwedd - Cystadleuaeth B19. Sio-medig iawn oedd y nifer o flwyddyn 9 a ddangosodd ddiddordeb, felly rhoddwyd cyfle i Maisie Holt o flwyddyn 8 gystadlu gan nad oedd Maisie ar gael i bobi yn ystod rownd blwyddyn 8. Crymbl perffaith oedd gan Breeyn Reeves i gynnig a chacennau bychain Victoria gan Maisie a oedd yn galluogi i'r ddwy fynd yn eu blaenau i'r rownd derfynol.

Cynhelir y rownd derfynol Nos Fawrth 12fed o Dachwedd. Diolch yn fawr iawn i berchnogion y Rendezvous am feirniadu'r gystadleuaeth. Llongyfarchiadau i Glain Lewis am ddod i'r brig. Gobeithio cawn gyfle i redeg cystadleuaeth o'r math yma eto.

Tuesday night 15th October Year 7 competition. 7 pupils took part - Harry Reeves, Sean Jones, Grace Butler, Alaw Jones, Myfanwy Fenwick, Glain Lewis ac Ewan Burnam. They all took part and fought well in the competition to bake cakes and biscuits. Glain came first with Alaw following a very close second.

Tuesday Night 22nd October Year 8 Competition. Only 4 pupils took the opportunity to compete: Maisie Sandells, Gilby Cambell, Emma Cooke, and Shannon Lewis. The baking was of a very high standard. These pupils were praised for the lightness of their sponges and the creativity of the decorating work. Gilby and Shannon went ahead to the next round.

Tuesday 5th November the Year 9 Competition. It was disappointing that so few pupils took part in the competition. It was decided that Maisie Hold from Year 8 could take part as she had not been able to attend the year 8 competition. A perfect crumble from Breeyn Reeves and small, but excellent Victoria cakes from Maisie allowed both to go into the next round.

The final round was on Tuesday 12 November. A big thank you to the Rendezvous team for agreeing to judge the competition. Congratulations to Glain Lewis for coming first. We hope to have the opportunity to run this type of competition in the future.







Adran TGCh

Ym mis Hydref mi es i, Robert Buchan-Terry a Mr Rowlands i Gaerdydd er mwyn rhoi darlith yn y gynhadledd GOWS. Roedd yn cael ei gynnal gan CaST Cymru, ac wedi ei leoli yn Techniquest Caerdydd. Cychwynon ar ein taith dair awr i Gaerdydd y diwrnod cynt. **Pan gyrrhaeddwn o'r diwedd fe wnaethon gynllunio ein gweithdy y bydden yn ei gyflwyno y diwrnod wedyn. O'r diwedd, death y diwrnod mawr, diwrnod y gweithdy!** Deffron ni ben bore er mwyn gallu mynd i Techniquest cyn **gynted a phosib er mwyn cario'r offer trwm fel y robot llaw a'r set LEGO Mindstorm.** Tu mewn, roedd ymwelwyr yn gallu mynd o gwmpas i weld amrywiaeth o dechnoleg a gwyddoniaeth a oedd yn y sioe. Roedd y seremoni agoriadol yn cynnwys darlith gan y prif ymgynghorydd gwyddoniaeth i lywodraeth Cymru a nifer eraill o siaradwyr hefyd.

Wedyn roedd hi'n amser i ni arddangos ein gweithdy. Yn Iwcus i ni, daeth cynulleidfawr fawr. **Gyda'n gilydd dangoson ni sut mae Ysgol Bro Ddyfi yn gwneud TGCh a gwyddoniaeth.** Roedd athrawon ar draws Cymru yn ein gwyllo ni! Daeth y diwrnod i glo gyda mwy o siaradwyr yn trafod astroffiseg a dyfeisio. Wedyn roedd rhaid i ni ddod nol i **Fachynlleth gyda'r boddhad o helpu a chynorthwyo gyda digwyddiad mor bwysig.**

Gan Luke Herbert

In October; I (Luke Herbert), Robert Buchan-Terrey and Mr Rowlands visited Cardiff to give a talk during the Girls in Science event. It was hosted by CaST-Cymru; the event took place in Techniquest in Cardiff. We set off on a three hour journey the day before the event. When we finally made it to Cardiff, we planned our workshop, which we would be all presenting the following day. When the day of the event arrived, we had an early start and set up as soon as we got to Techniquest. At first there was some heavy lifting to be done. We had to carry an assortment of things such as robotic arms and LEGO Mindstorms sets. Inside visitors were free to explore the exhibition, which hosted an interesting selection **on technology and science. The event's opening ceremony** included talks from the chief scientific advisor of Wales and others.

Later on it was our time to shine with our workshop. We had a good turnout and together explained how Ysgol Bro Ddyfi does ICT and science. We had teachers from all across Wales watching us. The event closed with some equally interesting talks from topics such as astrophysics and inventing. Then it was just the case of returning to Machynlleth which was long but at least we all felt the satisfaction from helping with the very important event.

By Luke Herbert

Tîm Pêl droed merched

Eleni cafodd y tîm pêl droed merched gyfle i ddatblygu eu sgiliau pêl-droed yn llwyddianus.

Dywedodd y prif hyfforddwr, James Ingleston fod gwellaint mawr y flwyddyn yma gyda sgiliau rhagorol yn cael eu arddangos, ac mae'n hyfforddwr balch iawn. Cytunodd Kieran Jones, y rheolwr *cit* hefyd. Mae'r genethod wedi bod yn anlwcus y flwyddyn yma gan golli i Lanidloes, ond wedi rhoi brwydr dda yn ystod y gêm ac yn rhoi ymdrech fawr tan y diwedd. Mae James yn sicr y bydd y genod yn parhau i ddatblygu eu talentau pêl-droed ac hefyd yn hyderus y bydd y Capten- Lois Jones yn arwain y tîm i lwyddiant.

Recently our girl's football team have developed their own footballing skills successfully throughout the year. Head coach James Ingleston says their improvement this year has been exceptional and he is a proud coach, Kieran Jones the kit manager also agrees. The girls have been unlucky this year losing to Llanidloes but put up a good fight until the end whistle. James is sure that the girls will continue to further expand their footballing talent and has great confidence and faith in his team captain Lois Jones.

By James Ingleston

www.broddyfi.co.uk
Gwefan newydd! - New website!





Ffilm Fer - "cheers"

Ennillodd 6 o ddisgyblion gyda'r ffilm fer hon yng nghystadleuaeth yr ymgyrch yn erbyn yfed a gyrru.

Unwaith eto eleni mae'r Ysgol yn fuddugol trwy Powys yn y gystadleuaeth flynyddol hon. Yn nosbarth Astudio'r Cyfryngau bl.11 mae'r tîm, sef Stanley Cass, Lucy Faircloth, Adam Herbert, Charlie Jellett, Heulwen Thomas ac Anya Whitehouse. Cwblhawyd y ffilm gyda chymorth y cast Mr Iwan Biffin, Miss Mared Elfyn, Miss Erin Good, Miss Alice Haslam, Mr Tegid Owen, Mr Alex Roberts, ynghyd â'u hathro pwnc Mr Nic Ros.

The work of 6 year 11 students has once again been awarded a prize in the annual Drink-Drive Campaign Multi-Media competition. The school won first prize in Powys, the same prize as last year! The film was made by 6 Media Studies students: Stanley Cass, Lucy Faircloth, Adam Herbert, Charlie Jellett, Heulwen Thomas and Anya Whitehouse. The film was aided by the cast of Mr Iwan Biffin, Miss Mared Elfyn, Miss Erin Good, Miss Alice Haslam, Mr Tegid Owen, Mr Alex Roberts, and their subject teacher Mr Nic Ros.





Hacio yn y cynulliad

Bu'r deuddydd yn rhai cofiadwy iawn i Harri Hughes, Lowri Jones, Gwawr Jones, Lliwen Jones, Robert Arthur Buckenterry a minnau yng Nghaerdydd lle cawsom y cyfle i rannu a chlywed barn yr ifanc ar ran rhaglen Hacio (S4C/ITV). Ar ôl oriau o drafeilio di-ddiwedd lawr i Gaerdydd cawsom ein croesawu gan y dyfarnwr Rygbi byd enwog- Nigel Owens a'r gantores Tara Bethan.

Cynhaliwyd cwis ganddynt lle roedd yr 8 ysgol (a heb anghofio dau grŵp o athrawon) yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn amrywiaeth o destunnau a chwestiynau gwhanol.

Ar ôl bod yn agos iawn gyda cyn ysgol Nigel Owens, ni y criw o Ysgol Bro Ddyfi oedd yn fuddugol gan ennill deuseb Amazon gwerth £10 yr un, er hyn, y wobwr fwyaf mae'n siwr oedd derbyn *tweet* yn ein llongyfarch gan Nigel!

Y diwrnod canlynol aethom i ymweld a Llywodraeth Cymru. Cawsom y cyfle i ddefnyddio adnoddau gwreiddiol y cynulliad yn 'Nhŷ Hywel' sef hen siambr y cynulliad. Roedd sawl pwnc gwahanol megis 'Peryglon Technoleg', 'yr iaith Gymraeg' a 'Phwysigrwydd y Llywodraeth i'r ifanc' iw trafod gyda dadlau mawr rhwng criw Bro

Ddyfi a disgyblion o bob cwr o Gymru!

Wedi'r dadlau roedd cyfle i gymdeithasu â phawb dros ginio a hefyd gyda rhai aelodau seneddol Cymru gan gynnwys Russell George sef ein aelod seneddol ni. Trist oedd gweld nad oedd ganddo lawer o ddiddordeb yn ein barn ni wrth iddo osgoi ateb llawer o faterion pwysig. Nid yn unig i ni, ond i'r ardal y buem yn holi.

Holodd Gwawr ef yn drylwyr am broblemau amaethyddol yr aradal, a cafodd ei hanwybyddu'n llwyr. Teimlon, fel grŵp yn gryf iawn mai gwirion oedd ei fod wedi 'dod i wrando ar ein barn' dros ginio tra yn y siambr roedd dadlau di-ddiwedd wedi digwydd yn gynharach.

Daeth y deuddydd i ben wrth i ni gael blas ar ddadlau Seneddol go iawn. Cawsom eistedd yn y galeri ar drafodaeth ddwys am broblemau yr NHS. Diddorol oedd gweld bod strwythur y llywodraeth yn debyg iawn i'r hyn roeddem ni wedi bod yn ei wneud y bore hwnnw! Mi roedd y digwyddiad yma'n hynod lwyddiannus, nid yn unig i gael y cyfle i ddweud ein dweud am faterion sy'n bwysig i ni, ond hefyd i ddenu mwy o ddiddordeb gwleidyddol i bobl ifanc y wlad.



Urdd ym Mro Ddyfi



Taith
Cymru V Tonga

Ar y 22ain o Dachwedd fe aeth criw o ddisgyblion ac athrawon yr ysgol ar drip lawr i Gaerdydd i wylïo'r geêm rygbi Cymru v Tonga gyda'r Urdd.

Roedd pawb wedi cyffroi ar y ffordd lawr i'r brif ddinas ag yn edrych ymlaen i wylïo'r gem yn y stadiwm, rhai am y tro cyntaf!

Roedd y chwaraewr lleol -Rhodri Jones o Benna yn dechrau'r gêm yn y safle prop . Roedd yn braf iawn gwylïo'r hogyn lleol. Ddarw Cymru curo o 17-7 a gêm eithaf diflas oedd hi hefyd (yn wahanol iawn i'r gêm yn erbyn Awstralia y penwythos wedyn.)

Roedd pawb yn dawel iawn ar y daith adref gan fod pawb wedi blino ar ôl yr holl weiddi a neidio yn y stadiwm!

Hoffwn ddiolch i Urdd Gobaith Cymru ac i Miss Catrin Jones am drefnu'r daith!

Ymuna!

I ymaelodi yn yr Ysgol ewch i weld Miss Catrin Jones, ystafell 14 am fwy o wybodaeth.

Patagonia

Mae Llew Bleddyn wedi cael ei ddewis o 125 o ddisgyblion ar draws Cymru i fod yn ran o daith gyda 25 o ddisgyblion eraill o bob cwr o Gymru i fynd i Batagonia ym mis Hydref 2014 a drefnwyd gan yr urdd, menter iaith Cymru a menter Patagonia. Am misoedd nesaf bydd Llew yn gweithio'n galed i godi'r arian ar gyfer y daith yma a fydd yn rhoi y cyfle iddo wirfoddoli ym mhen draw'r byd, i annog y Gymraeg mewn ysgolion a chymdeithasau ar draws y Wladfa.



HACIO

Ar ôl ymweliad gan raglen Hacio (ITV/S4C) gwahoddwyd Harri Hughes a minnau lawr i Abertawe i ffilmio trafodaeth frwd rhwng bobl ifanc o bob cwr o Gymru. Cawsom y cyfle i drafod testunnau sydd yn bwysig i ni. Megis 'Bwlio ar Lein', 'Delwedd', 'Yr Iaith Gymraeg' a 'S4C'.

Mi roedd gan Harri a minnau farn cryf am y testunnau yma ac yn aml yn dadlau gydag eraill, hefyd yn erbyn ein gilydd am destunnau oedd yn bwysig i ni. Mi roedd hi'n ddiddorol tu hwnt i fedru trafod hyn gyda pobl o bob cwr o Gymru ond hefyd i glywed eu barn nhw am faterion sydd mor bwysig ac allweddol i ni.

– Gan Llew Bleddyn

After a visit from the Hacio programme (ITV/S4C), Harri Hughes and myself were invited down to Swansea to film a discussion of young people from around Wales. We had the opportunity to discuss topics that were important to us. This included: *Online Bullying, Image, The Welsh Language and S4C*.

Both myself and Harri Hughes had very strong opinions about these topics and we like to debate with others on these topics. It was very interesting to be able to discuss these with people from all over Wales, but also to hear others' opinions on the topics. That was very important to us.

– By Llew Bleddyn

Eco-Sgolion Eco-Schools



Mae'r cod Eco Ysgol wedi cael ei ddylunio ac wedi ei bleidleisio gan aelodau o'r ysgol gyfan.

Mae'r ysgol wedi cynnal dwy ymgyrch "bagiau i ysgolion" eleni sydd wedi hel tua £250. Bydd yr arian yma yn cael ei ddefnyddio er mwyn gwella tir yr ysgol.

Mae'r ysgol rwan hefyd yn rhedeg cynllun ail-gylchu papur, ble gall pob dosbarth cofrestru fod yn gyfrifol am ail-gylchu eu papur eu hunain, ac yn mynd a'r papur i'r banc ail-gylchu yn wythnosol.

The School Eco code was designed and voted for by members of the whole school.

The school has run 2 *bags to schools* campaigns this year > each has raised approximately £250. This money will be used to improve the school grounds.

The school now runs a whole school paper recycling scheme where every form class is responsible for their own paper recycling and representatives take the recycling to the paper bank weekly.





Dyfi Sasquatch News

Trac Beicio

Erbyn hyn mae'r olwynion wedi cychwyn troi! Mae'r cynlluniau ar gyfer y trac beicio wedi cychwyn, gyda Meirion Black - cynllunydd trac lleol, hefyd yn helpu. Bydd y grŵp yn cychwyn hel arian ar gyfer y prosiect yma'n fuan.

Taith o Brydain

Cafon ni y fraint o fod y beicwyr cyntaf dros y llinell gychwyn yn nhaith Prydian eleni. Cafodd yr ysgol gyfan y cyfle i weld y beicwyr yn cychwyn yn y tywydd afiach!

Pump Track

The pump track has now started to gain momentum with Merion Black a local course designer now on board. The group will be starting fund raising for the project soon.

Tour of Britain

We had the pleasure of being the first bikes **across the start line of this year's tour of Britain.** The whole school turned out in atrocious weather to start the riders off and members of the school bike club went first.



YouTube™ Ysgol Bro Ddyfi

Sianel YouTube newydd yr ysgol!

The schools new YouTube channel!



youtube.com/broddyfi

Brass and Wind at Bro Ddyfi

There many opportunities to play Brass and woodwind instruments at Ysgol Bro Ddyfi.


Monday - Many young players have started playing with **Towyn Silver Band** whose rehearsals are on Monday evenings between 6.30 and 9 at the Band room in Tywyn under the conductor Ian Henderson for more information contact nlr@broddyfi-hs.powys.sch.uk

Tuesday- School Wind Band rehearsals in the school hall. Rehearsal starts at 8.50 prompt. Mrs Marshal is working very hard to create a great sounding band so come along and be part of it. Conductor Mrs Sally Marshal of Machynlleth Wind Band. For more information please contact Mrs Sally Marshal.

Wednesday- School Brass band rehearsals are held in the music room rehearsals start promptly at 8.50 there is a growing number of brass players in the school and Mr Price is working really hard to get that beautiful round brass sound. For more information please contact Mr Philip Price.

Friday- Powys Youth Band- Rehearsals take place in Welshpool high school from 6 until 8 every Friday. For more information please contact Mr Philip Price. For more information on anything that the school Music department offers please contact Mrs Llio James.





Bore Coffi - Macmillan

Ddydd Gwener y 27ain o Fedi cynhaliwyd bore coffi Macmillan yn yr ysgol. Cawsom lond ein boliau o gacennau blasus a chodwyd £140 tuag at yr elusen cancr, Macmillan. Bu rhai disgyblion y chweched dosbarth yn **cwblhau oriau gwirfoddoli sy'n rhan o'u** cymhwyster BAC Cymraeg, wrth osod yr **ystafell a gwerthu'r cacennau. Diolch yn fawr iawn i'r staff, disgyblion a rhieni a gyfranodd** mor hael at y digwyddiad llwyddiannus hwn.

On Friday the 27th September we held a Macmillan coffee morning in the school. We **had a "bellyful" of cakes and raised £140** towards the cancer charity. Some of the students in the sixth form completed some of their volunteering time for the Welsh Baccalaureate by setting up and selling at the event. Thank you to the staff, pupils and parents that contributed to this successful event.



Llythrennedd

Mae darllen yn bwysig iawn oherwydd mae'n dy helpu i wella sillafu a dysgu geirfa newydd.

Dyma ychydig o bethau i dy helpu:

- Darllen unrhyw beth, o lyfrau i gylchgronau, E Lyfrau, papurau newydd a llawer mwy.
- Does dim rhaid i ti ddarllen llyfr hir i wella dy sgiliau darllen.
- **Defnyddia'r wê fel ffynhonnell ddarllen.**
- **Cofia ddewis darn darllen addas; rhywbeth rwy'ti'n ei ddeall a'i fwynhau.**
- **Cofia roi her i ti dy hun o bryd i'w gilydd.**
- Ceisia ddarllen ychydig pob nos.

Reading is very important because it helps you to improve your spelling and learn new vocabulary.

Here are a few tips to help you:

- *Read anything, from books to magazines, eBooks, newspapers and so much more.*
- ***You don't have to read a long book to improve your reading skills.***
- *Use the internet as a reading resource.*
- ***Remember to choose suitable text; something you'll understand and enjoy.***
- *Remember to give yourself a challenge from time to time.*
- *Aim to read a little bit every night.*

Rho amser i ddarllen
Make time to read

www.gprn.gov.uk

• Rhowch amser i ddarllen i'ch plentyn.
• Mae deng munud y dydd yn ddigon.
• Mae'n rhodd sy'n para oes.

• Make time to read to your child.
• Ten minutes a day is all it takes.
• A gift that will last a lifetime.

www.darllenynwell.co.uk www.betterreading.co.uk



Addysg Gorfforol

Ar yr 20fed - 21ain o Dachwedd, cawsom driip i Gaerdydd gyda'r adran chwaraeon i fynd i chwarae pêl-rwyd yn y Ganolfan chwaraeon yn Sophia Gardens. Roedd hi'n gystadleuaeth dan 18, ble roeddem yn chwarae yn erbyn ysgolion ar draws Cymru. Roedd yr holl ysgolion yn cael eu rhannu i 4 grŵp. Roedden ni felly yn cystadlu yn erbyn ysgolion megis Dyffryn Aman, Coleg Sir Gâr, Gwynllyw, Y Dderwen, Gwyr a St Teilo's. Roedd hi'n anodd iawn cael llawer o lwyddiant gan fod safonau pêl-rwyd yn uchel iawn yno, ond cawsom fuddugoliaeth yn erbyn Ysgol y Dderwen a ennill 14-11!

Llwyddon ni fel tîm i weithio yn dda gyda'n gilydd ac rwyf yn teimlo fy mod wedi datblygu a gwella ers fod ar y daith. Yn gyfan gwbl roedd ein trip yn un hwylus iawn ac rydym yn edrych ymlaen am ein cystadleuaeth nesaf!

On the 21st of November the P.E. department organised a Netball trip to Cardiff where we played a tournament against various schools across Wales. It was a very long drive down to Cardiff on the Wednesday, but fortunately we had some free time to do a bit of Christmas shopping and go out for a meal. We had an early night in preparation for the tournament on the Thursday. All schools that entered were organised into groups. On the Thursday morning, we found out we were in group D and therefore played schools such as Dyffryn Aman, Coleg Sir Gar, Gwynllyw, Y Dderwen, Gwyr and St Teilo's. The standards of play were very high, however, our determination led to us winning a game against y Dderwen 14 – 11. The trip was very tiring especially the long journey home. However, looking back, I developed many skills whilst playing Netball and it was a very enjoyable trip. I am now excited and prepared for the next tournament.



Addysg Gorfforol

Mae gynghrair rygbi Meirion Dwyfor wedi dechrau, ac mae timau o dan 14 ac 16 wedi bod yn cystadlu yn frwd yn barod. Rydym wedi chwarae Ysgol y Gader ac Ysgol Uwchradd Tywyn, ac mae perfformiadau ardderchog wedi eu gweld.

Mae'r tîm o dan 16 wedi cael gemau agos dros ben yn erbyn Dolgellau a Thywyn. Cafwyd dechrau ardderchog yn erbyn Dolgellau, gyda Rhys Lewis yn cario tri ar ei gefn am 10 metr i sgorio'r gais gyntaf! Yn anffodus, collodd y tîm eu ffordd yn ystod yr hanner cyntaf, ond brwydro'n ôl yn yr ail hanner, ac yn methu allan ar gyfleon i sgorio. Sgor derfynol Dolgellau 25 – Bro Ddyfi 12.

Ein "darbi" lleol yw ysgol Tywyn, ac roedd pawb o'r tîm yn barod i roi eu bywydau ar y lein, er mwyn rhwystro Tywyn. Dechreuad penigamp i'r gêm, gyda Meirion Jones-Evans yn sgorio cais yn y gornel, ar ôl gwaith da gan Kieran Jones i ledaenu'r bêl. Roedd hi'n gêm agos dros ben, gyda Tywyn yn ymateb yn ôl yn gryf ar ddechrau'r ail hanner ond cafwyd ceisiadau eraill gan Reuben Kohler, Meirion ac Ifor Evans, er mwyn selio'r fuddugoliaeth. Serenodd Dafydd Duggan wedi yn chwarae rhif 9, gan sicrhau pêl gyflym o unrhyw gic gosb. Cafwyd perfformiad arbennig, gan Jake Hinge unwaith eto yn dwyn y bel amryw o weithiau o'r ryc. Yn wir, doedd Tywyn ddim yn hapus gyda'r dyfarnwr (!) yn ystod y gêm, ond fwy na dim, ddim yn hoffi colli i fechgyn Machynlleth oedd y gwirionedd. Sgor derfynol Bro Ddyfi 25 – Tywyn 19.

Mae'r tîm o dan 13 wedi curo Dolgellau yn gyffyrddus, drwy guro 26 i 10, ac amryw o chwaraewyr yn serenu, yn cynnwys Tomos Davies, Dafydd Evans a Rhodri Griffiths.

Yn anffodus, nid oedd y gêm yn erbyn Tywyn mor ddisglair yng nghanol y glaw a'r mwd, ond yn y pendraw, perfformiad yn dangos dyfalbarhad gan y bechgyn. Sgor derfynol Bro Ddyfi 0 – Tywyn 29.

Pêl-droed

U16

Llanidloes 4 – Bro Ddyfi 6

Bro Ddyfi 0 – John Beddoes 2

U14

Llanidloes 2 – Bro Ddyfi 3

Bro Ddyfi 2 – John Beddoes 2

Blwyddyn 7

Bro ddyfi 1 – John Beddoes 6



Gwaith Cartref Yn Ysgol Bro Ddyfi

Yn Ysgol Bro Ddyfi yng Nghyfnod Allweddol 3, mae pob pwnc yn anelu i osod 4 darn o waith cartref yn Nhymor 1 a hefyd yn Nhymor 2. Gan fod pynciau craidd yn derbyn mwy o wersi, mae'n debyg y bydd y nifer yn uwch, ac mewn pynciau anghraidd, mae'n bosib y bydd y nifer ychydig yn is.



Gellir dosrannu'r gwaith cartref mewn i 3 prif fath sef:


1. Adolygu ac ymarfer y gwaith a gwblhawyd yn y dosbarth
2. Datblygu dealltwriaeth o thema/gysyniad cyn rhoi sylw i'r agwedd hon yn y gwersi
3. Ymestyn y dysgu trwy gymhwyso sgiliau a dealltwriaeth i sefyllfa newydd



Dyddiad – dydd Llun

Date - Monday

Y gwaith
cartref a
dyddiad
cyflwyno
*The
homework
and
presentation
date*



Nodiadau/
sylwadau/llythyr
*Notes/ comments/
letters*

Llyfr darllen
Reading book

Llofnod tiwtor
Signature of tutor

Llofnod rhiant
Signature of parent

Mae'r llyfr cyswllt yn cael ei ddefnyddio gan ddisgyblion i gofnodi gwaith cartref. O ganlyniad gall rhieni gadw llygad ar ba waith sydd gan y disgyblion ar unrhyw amser. Yn ogystal, mae'r llyfr cyswllt yn ddull i'r rhieni a'r ysgol gyfathrebu gyda'i gilydd (er mae'r ysgol hefyd bellach yn defnyddio system tecstio i ganmol ac i nodi pryderon os oes angen e.e. gwaith cartref heb ei gyflawni).

Gwaith Cartref Yn Ysgol Bro Ddyfi

Y plentyn sydd a chyfrifoldeb i sicrhau bod y gwaith cartref yn cael ei gwblhau i'r safon uchaf posibl. Gwna hyn gyda chefnogaeth gan yr ysgol a'i rieni yn aml. Mae'r **ysgol** yn cynnig sawl math o gefnogaeth a chynhaliaeth:

Mae athrawon yn rhannu adborth gyda disgyblion am eu gwaith – gall hyn fod yn ystod neu ar ôl cwblhau tasg, a disgwyliwn i ddysgwyr ymateb i'r targedau hyn. Fel arfer, trafodir nodweddion y meini prawf llwyddiant gyda disgyblion, ac mae disgybl yn gyfarwydd a'r broses o hunan-asesu ac asesu cyfoedion gan ddefnyddio BL/GBO.

Adborth – BL/GBO

Feedback – WWW/EBI

■ Mae athrawon yn rhannu adborth gyda disgyblion gan ddefnyddio:

■ **BL** – Beth lwyddodd? (canmoliaeth)

■ **GBO** – Gwell byth os... (targedau yw'r rhain)

■ Teachers share feedback with pupils using:

■ **WWW** – What went well? (praise)

■ **EBI** – Even better if... (these are targets)

Y Llyfr Cyswllt

- Dylai'r llyfr cyswllt fod gyda'r plentyn yn yr ysgol **bob dydd**
- Dylid cofnodi pob gwaith cartref a dyddiad cyflwyno
- Dylai rhiant ac athro cofrestru'r plentyn lofnodi'r llyfr cyswllt yn **wythnosol**
- Gall rhieni ac athrawon ddefnyddio'r llyfr cyswllt i **gyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref**
- Dylid cadw'r llyfr cyswllt yn daclus, glan a threfnus



Gwaith Cartref

Yn Ysgol Bro Ddyfi

Lle i gael cymorth gyda GwaithCartref

- Clwb gwaith cartref - amser cinio (cymorthyddion dysgu - Yst 7)
- Llyfrgell ar agor egwyl a chinio (cymorthyddion dysgu)
- Yst 7 (TGCh) ar agor amser egwyl
- Ar agor ar ddiwedd y dydd i weithio'n annibynnol - Yst 7
- Athrawon pwnc
- Athro cofrestru

Sut gall y rhiant helpu?

Dyma rai pethau y gall y rhiant ei wneud i helpu'r plentyn:

Creu ardal lle nad oes dim yn tarfu plentyn (e.e. ystafell fwyta)

Sicrhau bod adnoddau addas ar gael i gwblhau'r gwaith

Annog trefn gyson

Darllen dros waith gorffenedig a thrafod BL (Beth Lwyddodd) a GBO (Gwell Byth Os...)

Cyfyngu ar weithgareddau allanol os oes problem

Trafod y gwaith a dangos diddordeb

Os oes prawf, profi'r plentyn ar ôl iddo adolygu am gyfnod byr e.e. 15 munud

Ymweld a llefydd o ddiddordeb addysgol e.e. amgueddfeydd a thrafod beth sy'n ddiddorol a pham

Trafod materion cyfoes ac annog y plentyn i ddatblygu dealltwriaeth o beth sydd yn y newyddion

Canmol y plentyn am weithio'n effeithiol

Rydym fel ysgol yn deall y gall gwaith cartref achosi **problemau** ac rydym pob amser yn barod i wneud popeth o fewn ein gallu i gydweithio gyda'r plentyn a'r rhiant er mwyn goresgyn unrhyw anawsterau a all godi.



Gwaith Cartref Yn Ysgol Bro Ddyfi



Anogwn y rhieni i gysylltu gyda'r ysgol lle credir bod unrhyw broblem yn bodoli. Dyma enghreifftiau o broblemau:

Gallu llethu rhai disgyblion a chreu agweddau negyddol tuag at yr ysgol
Pobl ifanc heb yr amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau tu hwnt i waith ysgol
Achosï strae'n o fewn y teulu
Tarfù ar fywyd a threfniadau'r teulu
Gwneud i rieni deimlo'n euog nad yw disgyblion yn llwyddo i gwblhau gwaith cartref
Rhieni yn teimlo diffyg hyder wrth gefnogi'r plentyn – tasgau dieithr

Cofiwch ... Remember...

Cysylltwch gyda'r ysgol os oes unrhyw broblem neu gwestiynau am waith cartref!

Contact the school if there are any concerns or questions regarding homework



Home Work In Ysgol Bro Ddyfi

At Ysgol Bro Ddyfi in Key Stage 3, every subject aims to set 4 pieces of homework in Term 1 and again in Term 2. As the core subjects receive more lessons, the number way well be higher in these, and in the non-core subjects, it may be slightly less.



There are three main types of homework:


- 1) Review and practise work completed in class
- 2) Develop an understanding of a theme/concept before attention is given to it in the lessons.
- 3) Extend the learning by applying skills and understanding to new situations



Dyddiad – dydd Llun

Date - Monday

Y gwaith cartref a dyddiad cyflwyno
The homework and presentation date



Nodiadau/
sylwadau/llythyr
Notes/ comments/
letters

Llyfr darllen
Reading book

Llofnod tiwtor
Signature of tutor

Llofnod rhiant
Signature of parent

The contact book is used by learners to note homework and important notices. Parents can keep an eye on what work the pupils have at any time and whether or not it has been completed. Also, the contact book may be used as a communication method between the school and the home (although the school also uses the texting system to praise and to note concerns if needed e.g. unfinished homework).

Home Work

In Ysgol Bro Ddyfi

Every pupil has the responsibility to complete their homework to the highest standard possible. This is done with support from the school, and very often from the parents. The school offers support in several ways including:


- Homework Club – Lunchtime
(Teaching Assistant – Rm7)
- Library is open at Breaktime and Lunchtime (Teaching Assistant)
- Room 7 (ICT) open at Breaktime
Open at the end of the day to work independently – Rm7
- Help is also available from:
Subject Teachers
Registration Tutor

Teachers share feedback with pupils about their work – this can be during or after a pupil has completed a task. The pupil is expected to respond to these targets. Usually, the success criteria are discussed with learners, and they are used to complete self and peer assessment using WWW/EBI.

Adborth – BL/GBO

Feedback – WWW/EBI

- Mae athrawon yn rhannu adborth gyda disgyblion gan ddefnyddio:
 - BL – Beth lwyddodd? (canmoliaeth)
 - GBO – Gwell byth os... (targedau yw'r rhain)
- Teachers share feedback with pupils using:
 - WWW – What went well? (praise)
 - EBI – Even better if... (these are targets)



The Contact Book

- The contact book should be with the child in school **everyday**.
- All homeworks and presentation dates should be noted.
- A parent and the registration teacher of the child should sign the contact book **weekly**.
- The contact book may be used as a method of **communication between the home and the school**.
- The contact book should be kept neat, clean and organised.



Home Work

In Ysgol Bro Ddyfi

Where to get support for Homework

Homework club - lunchtime (teaching assistant - Rm7)

Library is open at breaktime and lunchtime (teaching assistant)

Room 7 (ICT) open at breaktime

Open at the end of the day to work independently - Rm7

Subject teachers

Registration tutor

These are some things a parent can do to help their child:

- *Create an area where there are no major disturbances (quiet room – dining room).*
- *Ensure there are appropriate resources available to complete the work.*
- *Encourage a routine.*
- *Read the completed work and discuss WWW and EBI.*
- *Limit outside activities if conflict arises.*
- *Discuss the work, show an interest.*
- *If there is a test, test the child after a short period of revision e.g. 15 minutes.*
- *Visit place of educational interest e.g. museums and discuss what is interesting and why.*
- *Discuss current affairs and read newspapers/watch news items on the television as this will develop the child's knowledge and understanding*
- ***Praise the child for working effectively***

As a school we understand that homework can cause **problems** and we're always willing to work with the child and parent to overcome any difficulties. We encourage parents to contact the school where any problems do arise. These are examples of problems:



Home Work

In Ysgol Bro Ddyfi



- *Homework can overwhelm some pupils and cause a negative attitude towards school.*
- *Homework can prevent young people taking part in out-of-school interests.*
- *Homework can strain relationships in the family.*
- *Homework disrupt family life and routines.*
- *Parents may feel guilty about their child's failure to do homework.*
- *Parents may lack confidence in supporting their child – e.g. In unfamiliar or complex tasks.*

Cofiwch ... Remember...

Cysylltwch gyda'r ysgol os oes unrhyw broblem neu gwestiynau am waith cartref!

Contact the school if there are any concerns or questions regarding homework



Rhifedd / Numeracy

Profion Rhifedd a Llythrennedd

Mis Mai yma mae Llywodraeth Cenedlaethol Cymru yn cynnal yr ail brofion statudol Rhifedd a Llythrennedd i ddisgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9. Mae'r profion yn cyd-fynd ac amcanion y Llywodraeth sef codi safonau rhifedd a llythrennedd mewn ysgolion. Mae yna 2 brawf rhifedd y flwyddyn yma sef trefniadol rhif a phrawf ymresymu rhif sydd yn cael eu cynnal y flwyddyn yma am y tro cyntaf. Hyd y profion rhif yw 30 munud ac mae'r prawf llythrennedd yn awr. Fel ysgol mi fydden yn helpu i baratoi disgyblion tuag at y profion drwy gynnal ffug brofion ynghyd a'r gweithgareddau rhif sydd yn digwydd yn yr ysgol yn barod megis bore rhif a chwestiwn rhif yr wythnos.

Er mwyn helpu i godi safonau rhifedd Ysgol Bro Ddyfi rydym yn cynnal cwestiwn rhif yr wythnos. Pob wythnos mae yna gwestiwn rhif newydd yn cael ei gyflwyno ar y wal rhif (tu allan i ddrws y gampfa). Dyma esiampl o gwestiwn rhif yr wythnos

Mae croeso i bob disgybl gymryd rhan ac mae yna wobwr ar gael i'r disgybl sydd yn ateb y mwyaf o'r cwestiynau yn gywir pob hanner tymor. I gymryd rhan, yn syml, darllenwch y cwestiwn, ysgrifennwch yr ateb ar bost-it sydd ar gael tu allan i ystafell y prifathro ac yna postiwch y post-it sydd a'r ateb a'ch enw yn y bocs rhifedd a llythrennedd (isod).

Gwefannau ac Apps defnyddiol i ddatblygu sgiliau rhif

Bedtime Math (gwefan)

Brainist Math Games (gwefan)

Dyma rai o'r Apps rydym yn defnyddio yn yr ysgol i ddatblygu sgiliau rhif



Ysgol Bro Ddyfi

Yn y pedair gêm agoriadol daith Awstralia mae'r Llewod wedi sgorio 214 o bwyntiau. Faint o bwyntiau ar gyfartaledd mae'r Llewod yn sgorio mewn gêm?

In the four opening games of the Australia tour the Lions have scored 214 points. How many points do they score on average per game?





Rhifedd / Numeracy

Numeracy and Literacy Tests

This May the Welsh Assembly Government is holding their second statutory Numeracy and Literacy tests for year 7, 8 and 9 pupils. The tests corresponds to the governments objectives which is to raise numeracy and literacy standards in schools. This year, there will be two numeracy tests *the numeracy procedural test* and *the numeracy reasoning test* being launched this year. The duration of the numeracy tests is 30 minutes and the literacy test an hour. As a school, we will be helping pupils prepare for the tests by conducting mock tests along with numeracy activities that already exist such as the numeracy morning and the numeracy question of the week.

To help raise the standards of numeracy at Ysgol Bro Ddyfi ,we are currently conducting a numeracy question of the week. Each week, there is a new numeracy question presented on the numeracy wall (outside the door of the gym). Here is an example of a numeracy question of the week:

Every pupil is welcome to take part and there will be a prize given to the pupil(s) who achieves the most correct answers during each half term. To take part, simply read the question, write the answer on the post-it outside the headmasters' office and post the it. Lin the numeracy and literacy box . Make sure you put your name on the post-it!

Useful websites and Apps to develop numeracy skills

Bedtime Math (website)

Brainist Math Games (website)

These are some of the Apps we use at school to develop numeracy skills





Morrisons

Diolch yn fawr i bawb am eich cefnogaeth drwy ddod a'r talebau uchod i'r ysgol.

Derbyniwyd nifer fawr ohonynt eleni. Archebwyd hadau ac offer garddio.

Thank you all very much for your support by bringing the above vouchers to school. A large number were collected again this year.

We used them to order seeds and gardening equipment.

Llongyfarchiadau i pawb a gystadlodd yn Eisteddfod Powys eleni! Da iawn chi!

Congratulations to everyone to competed in the Powys Eisteddfod this year! Excellent work once again!

1af

Ffion Haf Davies – Tirlun mewn unrhyw gyfrwng Tecstilau
Fflur Jones – Cludwr Gliniadur
Elan Duggan – Bag wedi ei wnio â pheiriant
Fflur Jones – Bag Ffôn symudol

2il

Nia Hoskins – Tirlun mewn unrhyw gyfrwng Tecstilau
Ffion Jones - Bag Ffôn symudol

3ydd

Kintia Ozola - Bag wedi ei wnio â pheiriant
Aur Bleddyn – Tirlun mewn unrhyw gyfrwng Tecstilau
Aur Bleddyn – Bag Ffôn symudol
Ffion Davies – Paentiad yn cynnwys dŵr
Heledd Pugh – Bag wedi ei wnio â pheiriant





Menter - Pêl-Droed

Amser cinio heddiw y 29fed, Dydd Gwener Tachwedd fe wnaeth 5 ohonym sef Kirsty Davies Sioned Owen, Siwan Morris, Daniel Rowlands a Dion Kohler **wneud gweithgaredd amser cinio i'n gwaith Menter**.

Y weithgaredd oedd pêl-droed pump yr ochr yn y Ganolfan Hamdden. Roedd angen i bob **tîm gael 1 aelod o'r chweched** dosbarth, 1 athro, 1 disgybl yng nghyfnod allweddol tri ac 1 disgybl o gyfnod allweddol 4. Roedd pob math o dimau yn cymryd rhan. Roedd y weithgaredd yn codi arian at **tîm pêl-droed** Hurricanes Machynlleth Iddyn nhw gael *cit* newydd. Daeth llawer o **bobl i'r weithgaredd. Roedd y gêm** olaf yn agos iawn, y sgor oedd 3-2. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn.

Lunchtime on the 29th of November saw 5 members from the sixth form; Kirsty Davies, Sioned Owen, Siwan Morris, Daniel Rowlands and Dion Kohler completing an activity for their Menter project.

The activity was a 5 a side football match in the leisure centre. Each team had to have 1 member from the sixth form, 1 teacher, 1 student from KS3 and 1 student from KS4. The money raised was donated to the Hurricanes football team in Machynlleth for their new kit.

Many fans turned up to see the game and play 5 a side football. The last game was very close with the score finishing 3-2.

Everyone enjoyed themselves very much!

Twrnament Pêlrwyd y Sir (U16)

Ar y 15eg o Dachwedd 2013 daeth timau pêl-rwyd o'r Trallwng, Llanfair Careinion a Llanfyllin i Ganolfan Hamdden Bro Ddyfi i gystadlu yn nhwrnament Powys i flwyddyn 11. Roedd rhywbeth eithaf cyffrous cael cystadlu mewn twrnament lleol. Roedd yr holl dimau ysgol yn chwarae yn arbennig o dda ac roedd hi'n ddiwrnod cystadleuol dros ben. Gyda Llanfair Careinion yn ennill y twrnament, bu'n ddiwrnod hwyliog tu hwnt Roedden ni fel tim yn arbennig o hapus gyda'n gem olaf yn erbyn tim y Trallwng am ein bod wedi chwarae yn dda iawn fel tim, ac roedd y sgor terfynol yn agos ar ol colli 16-12. Roedden ni yn ennill y chwarter cyntaf, felly yn amlwg roedd hi'n gem gystaldeuol a chyffrous iawn. Diwrnod cofiadwy, ond blinedig!

Carys, Beca a Branwen (BL.11)





Hoffem ddiolch i'r canlynol a oedd yn gyfrifol
am y rhifyn yma o Ein Bro:

Golygwyd gan /Edited by:
Miss Mared Elfyn, Mrs Elaine Currie,
Mr Llifon Ellis ac Mrs Haf Ap Robert

YSGOL BRO DDYFI

Tel: (01654 70 2012)

Ffacs: (01654 70 2994)

E-bost: office@broddyfi-hs.powys.sch.uk

Gwefan: www.broddyfi.co.uk

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A.